



## **Hysbysiad Preifatrwydd - Llywodraeth Cymru Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynol Athrawon (AGA) ar gyfer pynciau â blaenoriaeth – blwyddyn academaidd 2022/23**

Yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU), mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â gwybodaeth y mae'n ei derbyn sy'n ymwneud â'r Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon.

**Bydd yr wybodaeth yn yr hysbysiad hwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau pellach y cawn wybod amdanynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.**

### **1. Cefndir**

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu ystod eang o gynlluniau grant er mwyn helpu i weithredu ein polisïau a chreu Cymru sy'n decach ac yn fwy ffyniannus. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y **Cynllun Cymhelliant AGA ar gyfer pynciau â blaenoriaeth.**

Ar ôl cael yr wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen gais, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r data.

### **2. Pa wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael?**

Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu a'i chadw yn cynnwys:

- ✓ Rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi, megis:
  - Enw
  - Cwrs AGA a'i ddarparwr
  - Rhif Myfyriwr
  - Rhif athro
  - Pwnc gradd, dosbarth y radd a'r brifysgol
  - Swm y cymhelliant
  - A wnaethoch adael cyn diwedd y cwrs a'r rheswm dros wneud hynny, er enghraifft, yn sgil amgylchiadau annisgwyl neu beidio diwallu anghenion academaidd
  - A wnaethoch ennill SAC ac a gafodd ei ddyfarnu ichi
  - A wnaethoch gwblhau eich cyfnod sefydlu.

### 3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Llywodraeth Cymru fydd y 'rheolwr data' ar gyfer unrhyw ddata personol sy'n cael eu darparu mewn perthynas â'r cais am grant/ hawliad neu gais am gyllid grant a gyflwynir gan eich prifysgol/Partneriaeth AGA neu Gyngor y Gweithlu Addysg.

Fel rhan o'i chylch gwaith fel rheolwr data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff at y dibenion isod. Mae'r prosesau hyn yn angenrheidiol ac yn unol ag Erthygl 6(1)(e) GDPR lle mae angen prosesu gwybodaeth er mwyn cyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i reolwr y data:-

a. At ddibenion y Cynllun Cymhelliant:-

- ✓ I lywio a gwella polisiau mewn perthynas â rhaglenni gradd ac ôl-raddedig AGA yng Nghymru, ac i ddylanwadu arnynt
- ✓ I helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

b. At ddibenion cyllido (er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i gael y Grant Hyfforddi a'n bod yn cael gwybodaeth gywir er mwyn gwneud taliad):-

- ✓ Bydd y data uchod yn cael eu defnyddio i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i gynnal gwiriadau at berwyl atal twyll a gwyngalchu arian.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i wirio eich hunaniaeth.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

c. At ddibenion ystadegol ac ymchwil:

- ✓ I lywio a gwella polisiau addysg gan gynnwys ein Cynlluniau Cymhelliant
- ✓ I fonitro a targedu cyllid yn effeithiol
- ✓ I fonitro perfformiad y Cynlluniau Cymhelliant yn gyffredinol
- ✓ I gysylltu â setiau data eraill Llywodraeth Cymru a thrydydd parti'on priodol, er mwyn cyfrannu at bolisiau addysg ehangach

### 4. Â phwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth amdanoch a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei rhannu a'i chysylltu â setiau data eraill os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny neu'n cael ei rhannu â chyflenwr trydydd parti sydd wedi'i gontractio i weithredu ar ran Llywodraeth Cymru.

Yr Unigolion neu'r Sefydliadau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw:

- ✓ Cyngor y Gweithlu Addysg
- ✓ Asiantaethau atal twyll

- ✓ Trydydd Partion sydd wedi'u contractio i gynnal ymchwil cymeradwy ar ran Llywodraeth Cymru

Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn darparu data at ddibenion penodol ac am gyfnod cyfyngedig. Rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi dinistrio'r data ar ôl y cyfnod cyfyngedig hwnnw.

## 5. Am ba mor hir y byddwn yn cadw'r data hyn?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth am hyd at 7 mlynedd ar ôl y dyddiad y bodlonwyd yr holl amodau sy'n berthnasol i'r grant ac y cafodd yr holl daliadau eu gwneud. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd y data'n cael eu gwneud yn ddiennw yn unol ag arferion gorau, a'u defnyddio at ddibenion ystadegau ac ymchwil yn unig.

## 6. Eich hawliau o dan GDPR

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- ✓ Gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu prosesu andanoch chi;
- ✓ Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- ✓ Gwrthod (o dan rai amgylchiadau) i'r data gael eu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi;
- ✓ Cyfyngu'r prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- ✓ Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael gwybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, cysylltwch â Llywodraeth Cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

	<b>Swyddog Polisi Addysg Gychwynnol i Athrawon</b>	<b>Swyddog Diogelu Data:</b>	<b>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth</b>
Cyfeiriad:	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ	Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer / Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn:	03000 615957	0300 604400	029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Cyfeiriad e-bost / Gwefan:	ITEducationAddysgGA@llyw.cymru	Data.Protecti onOfficer@llyw.cymru	www.ico.gov.uk